| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU** |
| **DYDDIAD** | **17 Tachwedd 2016** |
| **TEITL** | **Ymchwiliad Gweithwyr Gofal, Iechyd a Gofalwyr** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd W Gareth Roberts** |
| | |

1 Mae'r Aelod Cabinet Gofal ac Iechyd yn ymgymryd â gwaith o adolygu pa mor effeithiol yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer cefnogi gofalwyr di-dâl, a sut orau i gefnogi a chynyddu'r gweithlu nyrsio a gofal.

2 Yn ystod oes y Cyngor yma o fis Mai 2012 tan y presennol, mae nifer o Aelodau'r Pwyllgor Craffu wedi cymryd rhan mewn tri ymchwiliad ym maes Gofal ac Iechyd ac wedi adnabod yr angen i wynebu'r her o brinder gofalwyr neu weithwyr gofal ac iechyd i fod ar gael yn y lleoliad iawn ar yr amser iawn.

3 Cyflwynir yma Frîff drafft er sylw Aelodau'r Pwyllgor Craffu ar gynnal Ymchwiliad Craffu gyda'r nod o ateb y cwestiwn canlynol:

'*Pa mor gynaliadwy yw'r ddarpariaeth o ran gweithlu a gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr di-dâl) yng Ngwynedd heddiw ac i'r dyfodol?*'

4 Mae'r Aelodau canlynol yn barod i wasanaethu fel aelodau'r ymchwiliad: Cynghorwyr Selwyn Griffiths, Sian Wyn Hughes, Linda Ann Jones, Eryl Jones-Williams, Ann Williams, Eirwyn Williams ac R H Wyn Williams.

5 Ystyried cyfethol cynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd fel aelod o'r Ymchwiliad.

6 Gofynnir I'r Pwyllgor ystyried y brîff drafft amgaeedig a'r rhestr enwebai uchod.